Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Trawsnewid a newid

Canlyniad ymgynghoriad Cyngor Celfyddydau Cymru ar y trefniadau ar gyfer arian y Loteri Genedlaethol i'r celfyddydau yn y dyfodol.

Mehefin 2019

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Trawsnewid a newid

## Canlyniad ymgynghoriad Cyngor Celfyddydau Cymru ar y trefniadau ar gyfer arian y Loteri Genedlaethol i'r celfyddydau yn y dyfodol.

---

**Ar 24 Mawrth 1995 rhoddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei ddyfarniad cyntaf erioed o arian y Loteri Genedlaethol.** Rhoddwyd £37,350 i Fand Tref Pontarddulais i adeiladu neuadd ymarfer newydd. Mae'r Band yn dal i ffynnu, gan ennill gwobrau mewn cystadlaethau i'r Deyrnas Unedig gyfan. Caiff y neuadd ei defnyddio o leiaf dwywaith yr wythnos ar gyfer ymarferiadau'r adran iau a'r adran hŷn, a dyna lle y bydd llawer o bobl ifanc yn mwynhau chwarae cerddoriaeth am y tro cyntaf.

Mae llawer wedi cael ei gyflawni ers dyddiau cynnar y Loteri. Yn y 24 blynedd ers y dyfarniad cyntaf hwnnw, rydym wedi:

- ariannu 13,813 o brosiectau ledled Cymru (gan gynnwys 1,121 trwy bartneriaid dirprwyedig arian y Loteri)

- dosbarthu £294 miliwn o arian y Loteri (gan gynnwys arian dirprwyedig y Loteri)

**Dros y cyfnod hwn trawsnewidiwyd cyfleusterau'r celfyddydau yng Nghymru.** Mae adeiladau amlwg newydd wedi agor i'r cyhoedd gan gynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, Galeri, Caernarfon, Glan yr Afon, Casnewydd, Pontio, Bangor ac yn fwyaf diweddar Tŷ Pawb yn Wrecsam. Hefyd cafwyd nifer o brosiectau adnewyddu o bwys sydd wedi dod â bywyd newydd i hen adeiladau – Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe, Theatr Mwldan yn Aberteifi, Plant y Cymoedd yn Nhonypandy, Arad Goch yn Aberystwyth a Mostyn yn Llandudno. Mae arian y Loteri Genedlaethol wedi cyrraedd pob rhan o Gymru ac wedi ein helpu i greu mannau i bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau lle nad oedd ond ychydig o gyfleoedd o'r blaen.

**Ond nid dim ond adeiladau sydd wedi cael budd – dim o gwbl!**
Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi defnyddio arian y Loteri i gynorthwyo artistiaid a sefydliadau i greu gwaith newydd a chyffrous ar draws y wlad yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, wedi cynorthwyo ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau BAFTA ac wedi cael eu henwebu ar gyfer gwobrau Oscar, wedi lansio rhaglenni fel Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau sydd wedi gweithio gyda 70% o'r ysgolion yng Nghymru ac wedi rhoi cyfle i fwy na 100,000 o blant gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a chyffrous.

Mae ein rhaglen Creu Cymunedau Cyfoes wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio gyda chymunedau i arwain prosiectau adfywio lleol, ac mae ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol wedi cynorthwyo artistiaid i feithrin perthnasoedd newydd a datblygu cyfleoedd gweithio newydd ar draws y byd.

**Wrth inni nesáu at ben-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 25 oed, ymddangosai mai priodol fyddai myfyrio ar y llwyddiannau ac ymgynghori ar y cyfeiriad yn y dyfodol.**
Rhwng 12 Tachwedd 2018 a 15 Chwefror 2019 cynaliasom ymgynghoriad cynhwysfawr ledled Cymru. Cyfarfuom â 212 o bobl a daeth 164 o ymatebion ysgrifenedig i law. Mae'r ddogfen hon yn cyfleu ein hymateb i'r ymgynghoriad.

**Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cyd-daro â chyhoeddi ein cynllun corfforaethol newydd "Er Budd Pawb…"**
Mae'n naturiol, felly, bod gan flaenoriaethau'r cynllun le mor amlwg yn ein trafodaethau ymgynghori. Gall fod yn hynod hawdd colli golwg ar gynulleidfaoedd neu gyfranogwyr – y rhai sy'n cael budd o arian y Loteri yn y pen draw. Mae ein cynllun corfforaethol yn gwneud y cyhoedd – a'r croestoriad ehangaf posibl o'r cyhoedd hwnnw – yn ganolog i'r cynllun.

**Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar 12 topig.**
Cânt eu hailadrodd yma. Ym mhob achos rydym yn crynhoi'r prif faterion y clywsom amdanynt yn ystod yr ymgynghoriad ac yn nodi'r prif gamau gweithredu rydym yn bwriadu eu cymryd yn awr. Rydym wedi ceisio cofnodi, yn deg ac yn gywir, y sylwadau a gyflwynasoch inni. Yn y rhan fwyaf o achosion rydym wedi gallu adlewyrchu consensws gwirioneddol yn ein cynigion. Mewn nifer fach iawn o achosion, mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad ei fod eisiau mynd ar hyd llwybr gwahanol. Lle bo hyn yn wir, rydym yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.

Yn olaf, mae wedi bod yn broses ddiddorol a boddhaus ac rydym yn hynod ddiolchgar i'r rheiny a roddodd mor hael o'u hamser er mwyn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Diolch yn fawr!

Kath Davies
Cyfarwyddwr (Gwasanaethau Ariannu'r Celfyddydau)

Mehefin 2019

# Topig 1: Er budd pawb

## Yr hyn a glywsom…

**“Mae amrywiaeth yn y celfyddydau’n hanfodol os ydym ni eisiau adlewyrchu cymdeithas deg, cyflawni ein cyfrifoldebau cymdeithasol a hybu’r mynediad gorau posibl i gyfleoedd i bawb”**

**“…y mater pwysicaf oll yn y celfyddydau heddiw”**

Canfuom ddealltwriaeth wybodus a datblygedig o’r rhan mae arian y Loteri Genedlaethol yn ei chwarae wrth gynorthwyo prosiectau a mentrau sy’n gwneud cyfraniad cadarnhaol i greadigrwydd a llesiant.

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol Llywodraeth Cymru sy’n darparu’r cyd-destun cyffredinol a chlywsom dystiolaeth huawdl o blaid y gred bod cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gwerthfawrogi ac yn parchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion. Drwy gydol ein hymgynghoriad rydych wedi dweud eich bod eisiau gweld cymdeithas sy’n coleddu cynwysoldeb – cymdeithas lle caiff ein diwylliant ei gyfoethogi a’i ehangu gan leisiau amrywiol a nodedig.

Mae hyn yn adlewyrchu’n dda yr ymrwymiadau a wneir yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor y Celfyddydau, “Er Budd Pawb…” Blaenoriaeth bwysicaf y Cyngor yw hybu Cydraddoldeb fel sylfaen dymuniad clir i gyrraedd pob cymuned ledled Cymru yn ehangach ac yn ddyfnach.

Datgelodd yr ymgynghoriad gonsensws cryf ynghylch yr egwyddorion hyn. Yn wir, roedd cefnogaeth gref i’r syniad y dylai’r celfyddydau yn gyffredinol – a’r holl sefydliadau a ariennir yn arbennig – fynd ati i ymrwymo i fesurau sy’n dymchwel y rhwystrau sy’n atal pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau.

Nododd ymatebwyr:

- Nad oes modd gwadu’r ddadl dros fabwysiadu dull ehangach, tecach a mwy amrywiol o ariannu a datblygu’r celfyddydau

- Er mwyn inni wneud y celfyddydau’n fwy deniadol i gyhoedd ehangach a mwy amrywiol, mae angen inni fod yn barod i newid y ffordd mae’r celfyddydau’n cael eu creu ac i bwy y maen nhw

- Mae nifer o brosiectau Cyngor y Celfyddydau, megis Creu Cymunedau Cyfoes, wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o hybu ymgysylltu ehangach – maen nhw'n cynnig gwersi pwysig ar gyfer y dyfodol

- Weithiau, er mwyn cynnwys cymunedau mewn modd ystyrlon, mae angen ymagwedd fwy hirdymor a pharodrwydd i fod yn hyblyg – mae ymgysylltu cynaliadwy yn galw am yr amser a'r lle i hyder aeddfedu ac i bartneriaethau ymsefydlu

- Mae arnom angen geirfa newydd i ddisgrifio a darlunio ein gweithgareddau ymgysylltu mewn ffyrdd haws eu deall – gall ieithwedd ei hun fod yn rhwystr i'r rheiny nad ydynt yn gyfarwydd ag ariannu'r celfyddydau

- Mae'r heriau mae cymunedau'n eu hwynebu yn niferus ac yn amrywiol – bydd gan bob cymuned ei chymeriad ei hun. Bydd y problemau mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu'n wahanol i'r rheiny mae cymunedau yn ein prif ddinasoedd yn eu hwynebu

- Yn aml bydd gan y cymunedau hwythau eu hatebion eu hunain i'r 'problemau' y tybir eu bod yn effeithio arnyn nhw

- Pan fyddwn yn sôn am 'gymunedau' mae angen inni gofio demograffeg benodol Cymru wrth lunio ein hymateb. Nid yw'r un ateb yn addas i bawb.

- Dylai egwyddorion amrywiaeth a chydraddoldeb gael eu gwreiddio'n gadarn yn yr ***holl*** arferion a'r ***holl*** raglenni mae Cyngor y Celfyddydau'n eu cynorthwyo

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud...

Dylem gynnig esboniad cliriach o'r math o weithgarwch yr ydym yn barod i'w gynorthwyo, gan barchu gwerth "creadigrwydd pob dydd" unigolion a chymunedau. Rydym eisiau i fwy o bobl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Ond nid cynyddu'r niferoedd yw ein *hunig* nod, er mor bwysig yw hynny. Y nod yw ymestyn allan i'r rheiny nad ydyn nhw'n gweld eu hunain fel cynulleidfaoedd celfyddydau traddodiadol eto. A'r nod hefyd yw newid nid yn unig y ffordd yr ydym yn edrych ar arian cyhoeddus i'r celfyddydau, ond hefyd y math o gelfyddydau yr ydym yn barod i'w cynorthwyo.

### Byddwn yn...

- Cyfeirio mwy o arian at weithgareddau sy'n ymgysylltu â phobl o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- Diffinio rhaglen newid newydd sy'n canolbwyntio ar gymunedau, a ariennir am fwy nag un flwyddyn, sy'n cyflawni newid sylweddol yn amrywiaeth y rheiny sy'n mwynhau, creu a chymryd rhan yn y celfyddydau
- Bydd y graddau mae sefydliadau, prosiectau, mentrau yn mynd i'r afael â'r rhwystrau creadigol, cymdeithasol a demograffig i ymgysylltu ymysg y meini prawf allweddol a ddefnyddiwn wrth asesu ceisiadau am arian
- Datblygu gallu, sgiliau ac arbenigedd yr unigolion a sefydliadau hynny sy'n dangos tueddfryd at waith sy'n ymgysylltu â chymunedau.
- Dangos trwy ein hymchwil y cynnydd yr ydym yn ei wneud wrth ddiwallu anghenion y rheiny â nodweddion gwarchodedig. Diffinnir nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn: - pobl anabl, pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol; plant a phobl ifanc (25 oed ac iau); menywod beichiog a mamau newydd; credoau crefyddol penodol; Trawsryweddol; siaradwyr Cymraeg; teuluoedd.

# Topig 2: Cyrraedd pob rhan o Gymru

## Yr hyn a glywsom…

“Mae anghenion pobl yn gymhleth o hyd…yn rhy aml caiff cymunedau eu disgrifio mewn ffordd rhy syml...mae angen inni ofyn, holi a gwrando”

“Rydyn ni’n cefnogi hyn mewn egwyddor ond mae’n gymhleth”

Roedd dwy brif thema yn eich trafodaethau. Roedd y gyntaf yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau y dosberthir arian yn decach ar draws Cymru gyfan. Mewn cymunedau lle mae ychydig o ymgysylltiad â’r celfyddydau, bron pob tro ychydig o fuddsoddiad o arian y Loteri sydd.

Ond mae yna gymhlethdodau i’w dadansoddi – yn anad dim diffiniad cymuned. Er enghraifft, cytunwyd na ellir diffinio cymunedau’n rhy syml yn ddaearyddol. Mae angen ystyried hefyd y cyd-destun economaidd gymdeithasol, a chymunedau sy’n diffinio eu hunain yn ôl diwylliant a hunaniaeth, iaith, rhywedd neu anabledd. Fodd bynnag, roedd consensws ynghylch y farn bod angen i bob cymuned gael ei grymuso i gydnabod ei hawl cyfiawn i gael mynediad i’r celfyddydau yn y lle cyntaf. *‘Does dim modd i bobl ofyn am rywbeth nad ydyn nhw’n gwybod am ei fodolaeth.’* Mae mynd i’r afael â’r diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol hon yn gam cyntaf o bwys.

Yr ail thema (ac un sy’n codi dro ar ôl tro mewn llawer o feysydd yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad) yw’r angen am ymgysylltu mwy hirdymor ar lawr gwlad. Mae’r rhan fwyaf yn barnu bod anfon pobl o’r tu allan i mewn am gyfnodau byr yn niweidiol, ac yn y diwedd yn andwyol, i’r math o ymgysylltiad sy’n gynaliadwy yn y tymor hirach.

Gofynasom hefyd a fyddai model ariannu gwasgaredig yn fuddiol, gan gyrraedd cymunedau trwy ddirprwyo arian a’r gwaith o wneud penderfyniadau i lefel fwy lleol. Cymysg oedd yr ymatebion i hyn, gan adlewyrchu barn weddol gyson bod yna lawer o bryderon ynghylch hyfywedd a phriodoldeb dull o’r fath oedd â nifer fawr o beryglon posibl.

Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch:

- Anhawster wrth gynnal strategaeth a blaenoriaethau cenedlaethol, a’u cyflawni’n gyson ledled y wlad
- Gwahaniaethau posibl yn ansawdd y gweithgarwch sy’n cael arian cyhoeddus
- Anawsterau wrth gynnal cysondeb o ran gwneud penderfyniadau
- Perygl rhagfarn a gwrthdaro buddiannau

- Gallu sefydliadau lleol i gyflawni'r gwaith
- Perygl creu haen arall o fiwrocratiaeth

Fodd bynnag, roedd yna frwdfrydedd amlwg dros fwy o ymgysylltiad â rhanddeiliaid 'lleol' a diddordeb mewn gweld sut y gallen nhw gael mwy o ran yn y gwaith o benderfynu sut y dylid dyrannu arian sy'n effeithio ar eu hardal. Awgrymwyd ar wahân y gallai fod rôl i Gydweithwyr Celfyddydol newydd Cyngor y Celfyddydau, yn enwedig os gallan nhw ddod â phersbectif lleol i'r gwaith o wneud penderfyniadau. Bydd gwybodaeth a chysylltiadau gan randdeiliaid lleol, a gallan nhw helpu i gyfeirio cymorth mewn ffyrdd a allai gynnig gwell gwerth am arian.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Rydym yn cydnabod ac yn cytuno bod angen ystyried yn ofalus pa mor gymhleth yw dosbarthu arian yn deg a diffiniad 'cymuned'. Fodd bynnag, mae egwyddor cyfle cyfartal yn dal i fod yn sylfaenol i weledigaeth Cyngor y Celfyddydau.

Roedd yr ymatebion i'r cynnig ar gyfer model ariannu gwasgaredig yn graff ac yn addysgiadol. Roedden nhw'n darparu map llwybr clir i'w ddilyn wrth lunio egwyddorion rhoi grantiau yn y dyfodol.

### Byddwn yn…

- Sicrhau y bydd y rhaglen newid sy'n canolbwyntio ar gymunedau, a ariennir am fwy nag un flwyddyn, yr ydym newydd ei chynnig, yn cyflawni newid sylweddol yn amrywiaeth y rheiny sy'n mwynhau, creu a chymryd rhan yn y celfyddydau

- Cyhoeddi strategaeth ariannu sy'n rhoi sylw i faterion yn ymwneud â gallu tecach i gael arian ac i weithgareddau sefydliadau a chynlluniau a ariennir

- Creu proses penderfynu ar grantiau sy'n fwy agored a thryloyw trwy gynnwys rhanddeiliaid lleol

- Darparu gwybodaeth glir ynghylch pam y gallai ardaloedd penodol gael blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad a sut yr ydym yn diffinio 'cymunedau'

# Topig 3: Creu a mwynhau'r celfyddydau yn Gymraeg

## Yr hyn a glywsom...

"Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu rhaid i'r celfyddydau arwain y ffordd"

"Mae'r Gymraeg yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl...er mwyn iddi ffynnu mewn cyd-destun artistig ehangach, mae angen ehangu gorwelion ac mae angen datblygu a buddsoddi mewn mathau eraill o weithgarwch Cymraeg a dwyieithog"

Mae creu a mwynhau'r celfyddydau yn Gymraeg wedi'u cynrychioli'n dda yn yr ymatebion ysgrifenedig ac yn y sesiynau ymgynghori cyhoeddus. Un thema amlwg oedd argaeledd gwaith celfyddydol Cymraeg. Mae yna farn bendant nad oes digon o waith o ansawdd da ar gael ar hyn o bryd, ac roedd consensws bras ynghylch yr angen i ddyrannu arian penodol i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu cynnyrch Cymraeg ac i gynorthwyo artistiaid sy'n gweithio yn y Gymraeg. Pwysleisiwyd hefyd bod angen cynnyrch mwy amrywiol.

Fodd bynnag, roedd yna ymatebwyr a gwestiynodd agweddau ar y cynnig hwn ac a ddewisodd ganolbwyntio ar ddwyieithrwydd a/neu amlieithrwydd yn lle hynny. Ymddangosai fod y farn hon wedi'i seilio ar y gred y gallai rhoi cymorth i greu gwaith yn y Gymraeg dynnu oddi ar y cymorth i ieithoedd a diwylliannau eraill rywsut – ac y gallai hyn yn ei dro danseilio ein hymrwymiad i amrywiaeth. Nid ydym yn cefnogi'r farn hon. Nid yw'r syniad bod y Gymraeg rywsut yn cystadlu ag ieithoedd eraill yn fwy perthnasol (na chywir) na phe bai'r un feirniadaeth yn cael ei defnyddio ynghylch y Saesneg. Mewn gwirionedd, rhoddir statws cyfreithiol cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw argaeledd gwaith – a lefelau buddsoddiad – yn gyfartal.

*"Nid cenedl ddwyieithog ydym ni ond cenedl amlieithog."*

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y dylai unrhyw gymorth i waith Cymraeg weithio ar ryw fath o sail 'cwota', gan adlewyrchu'r ddemograffeg. (Mewn geiriau eraill, dylai argaeledd gwaith Cymraeg fod yn gymesur â chanran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg mewn ardal benodol.) Yn ystod y drafodaeth gyhoeddus teimlwyd bod hwn yn safbwynt anodd iawn ei dderbyn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd ymgynghori'n ymwybodol o uchelgais Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac roedd ganddynt farn fwy dynamig ar greadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma farn y byddem ninnau'n ei rhannu.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Rydym yn falch i weld y gefnogaeth gref i flaenoriaethu creu gwaith yn y Gymraeg. Rydym hefyd yn nodi'r farn bendant bod angen creu cynnyrch artistig mwy amrywiol yn Gymraeg.

Hyd yma, mae'r drafodaeth wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddrama. Mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu y gellid 'agor hyn i fyny' i gynnwys theatr gerdd, cerddoriaeth a phrosiectau ymgysylltu â chymunedau, er enghraifft. Rydym yn cytuno bod angen inni gefnogi a hybu creu gwaith Cymraeg ym mhob *genre*. Pwysleisiodd nifer o ymatebion bwysigrwydd cefnogi talent ifanc o Gymru. Rydym yn cytuno. Gellid cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd gwahanol, ac ymdrinnir â rhai ohonynt mewn adrannau eraill yn y papur hwn.

Rydym wedi ystyried yn fanwl y sylwadau a wnaethpwyd am waith dwyieithog ac amlieithog. Nid ydym yn derbyn y farn bod canolbwyntio ar y Gymraeg yn groes nac yn niweidiol i gydnabod a hybu Cymru amlieithog. Mae yna le, ac fe ddylai fod yna le, i bob iaith a diwylliant. Rydym yn croesawu ac yn dathlu ein hamlddiwylliannaeth. Fodd bynnag, rydym yn credu, i Gymru, fod egwyddor sylfaenol creu gwaith yn Gymraeg yn unig yn un y mae'n rhaid ei gwarchod a'i hybu.

Dylai fod mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu'r Gymraeg ac ymgysylltu â'r iaith ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn gofyn i bob sefydliad ac artist ei ystyried wrth greu a chyflwyno gwaith. Bydd hyn yn hollbwysig wrth helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050.

### Byddwn yn…

- Cynyddu maint arian Cyngor y Celfyddydau sy'n cael ei fuddsoddi mewn gwaith Cymraeg
- Darparu cymelliadau ariannol amser-diffiniedig i gomisiynu, cynhyrchu a hyrwyddo gwaith Cymraeg
- Buddsoddi mewn mentrau sy'n datblygu gallu a sgiliau gweithwyr proffesiynol creadigol sydd eisiau gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwella ansawdd gwaith marchnata a hyrwyddo gweithgarwch Cymraeg yn ein lleoliadau allweddol
- Datblygu cyfleoedd i arddangos gwaith Cymraeg o ansawdd da

# Topig 4: Yma am amser hir

## Yr hyn a glywsom…

"Mae hwn yn un o ofynion allweddol unrhyw strategaeth Loteri newydd"

"Mae hwn yn newid o bwys i'r ffordd y dosberthir arian y Loteri yng Nghymru, ac o gael ei ddefnyddio yn gyffredinol byddai'n newid ecoleg y celfyddydau yng Nghymru yn ddirfawr"

Mae cefnogaeth gref iawn yn yr ymatebion ysgrifenedig ac yn y cyfarfodydd ymgynghori i raglen ddatblygu aml-flwyddyn strwythuredig o 3 i 5 mlynedd mewn rhai meysydd gweithgarwch. I lawer o ymatebwyr mae hyn yn cynnig newid sydd i'w groesawu o'r hyn a welir ar hyn o bryd fel bodolaeth *'o'r llaw i'r genau'.*

Yn gyffredinol, gallai hyn fod o fudd trwy:

- wneud cynllunio strategol hirdymor yn bosibl
- sicrhau'r potensial mwyaf posibl o ran datblygu partneriaethau sy'n bodoli eisoes
- creu prosiectau dyfnach a gwell a fyddai'n cael mwy o effaith ar gymunedau
- helpu sefydliadau i dyfu ac i ddod yn fwy cynaliadwy a gwydn
- lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio'n llunio ceisiadau 'mewn perygl'

Fodd bynnag, mae dau gafeat.

Yn gyntaf, roedd llawer ohonoch yn teimlo bod angen o hyd gallu cael arian y Loteri yn gyflym ar gyfer gweithgarwch byrdymor sy'n cael ei ddyfeisio mewn ymateb i gyfleoedd annisgwyl.

Mae hefyd angen cydbwysedd er mwyn sicrhau bod yna ddigon o gymorth i dalent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg. Ni ddylai cyllidebau gael eu 'tagu' i'r fath raddau nes bod Cyngor y Celfyddydau i bob pwrpas 'ar gau' i syniadau newydd am sawl blwyddyn.

*"Mae'r celfyddydau'n fywiog ac yn gyffrous. Mae syniadau'n dod i'r amlwg, mae cysylltiadau'n cael eu meithrin, mae synergeddau'n cael eu canfod, yn sydyn. Mae arnyn nhw angen arian yn y fan a'r lle, gan daro tra bo'r haearn yn boeth"*

Yn ail, roedd rhywfaint o wrthwynebiad i'r awgrym y dylem wahodd ceisiadau pob dwy flynedd ar gyfer cynyrchiadau teithiol. Ychydig o gefnogaeth benodol a roddwyd i'r syniad y gallem fod â 'rhestr' o gynyrchiadau i fod yn destun ymchwil, datblygu a chymorth dros gyfnod mwy estynedig o amser. Ar y cyfan, nid ymddangosai fod yna dderbyniad brwd i'r cynnig hwn.

Nid oedd hyn yn golygu, fodd bynnag, na chafwyd trafodaeth ynghylch y model teithio presennol. Mae hwn yn bwnc llosg ers peth amser ac mae'n glir bod llawer ohonoch chi'n credu bod y system bresennol yn methu'n strwythurol, o ran y ffordd yr ydym yn cynorthwyo'r gwahanol gamau cynhyrchu trwy broses datblygu (o ymchwil a datblygu i deithio), ac o ran y model teithio yntau. Mae'r gwaith o ddatblygu sgiliau crefftau a chyfleoedd am gyflogaeth yn y broses creu yn rhy bwysig i gael ei adael i ffawd. Felly ymddengys ei bod yn gall edrych unwaith eto ar y maes gweithgarwch pwysig hwn er mwyn canfod cynigion sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well, yn cynnig gwerth am arian, ac yn cael eu ffafrio mwy gan y sector ei hun.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Mae consensws clir wedi dod i'r amlwg ynghylch y cynnig i ddatblygu rhaglen buddsoddi aml-flwyddyn strwythuredig mewn rhai meysydd. Rydym yn nodi hefyd y galw i gynnal rhaglen agored a all gynorthwyo talent sy'n dod i'r amlwg ac ymateb i amgylchiadau a chyfleoedd penodol.

Mewn gwrthgyferbyniad, roedd llai o gefnogaeth i'r cynnig i fabwysiadu dull mwy hirdymor o ddatblygu cynnyrch teithiol. Mae dau beth wedi dod yn amlwg trwy ein dadansoddiad o'r hyn rydych wedi'i ddweud wrthym. Yn gyntaf, bernir bod llawer mwy o werth i fuddsoddi mewn cwmni yn hytrach nag mewn prosiectau/cynyrchiadau unigol, ac yn ail, bod yna faterion cymhleth eraill sy'n ymwneud â theithio yng Nghymru a'r tu hwnt y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.

Mae hyn yn teimlo'n wrthreddfol, yn anad dim oherwydd y caiff y model presennol ei ddisgrifio fel un '*drud, sy'n galw am lawer o adnoddau, yn fyrdymor ac yn aml ag elfennau ymgysylltu symbolaidd yn unig. Mae yna fodelau mwy lleol, wedi'u gwreiddio, a ganiatâ i waith ddod allan o berthnasoedd sy'n cael eu meithrin dros amser.'*

Mae'n teimlo fel pe bai angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn.

### Byddwn yn…

- Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu rhaglen ariannu aml-flwyddyn strwythuredig ar gyfer rhai meysydd rhaglen

- Bydd rhaglen ariannu agored sy'n cynnig cymorth datblygu i artistiaid a chwmnïau sy'n dod i'r amlwg yn agwedd bwysig ar ein gwaith ariannu o hyd

- Byddwn yn sicrhau y caiff arian ei gadw'n ôl i ymateb yn gyflym i amgylchiadau penodol

- Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i ddatblygu model teithio effeithiol sy'n sicrhau cymaint o waith o ansawdd da ag sy'n bosibl ar sail gwerth am arian. Ychydig o gefnogaeth a gafwyd i'r cynnig am 'restr', ac mae angen inni weithio gyda chi ymhellach i ganfod strwythur ymarferol ac ymatebol i gynorthwyo â datblygu gwaith a mynd ag ef ar daith.

# Topig 5: Popeth am yr artist

## Yr hyn a glywsom…

"Mae arian i artistiaid yn bwysig i ecoleg y sector cyfan"

"Un o'r pethau gwrthun am arian cyhoeddus i'r celfyddydau yw mai'r artistiaid hwythau sydd yn aml yn cael y tâl gwaethaf ac sy'n cael eu talu olaf yn y system gyfan...Pam ydych chi'n rhoi cyn lleied o werth ar artistiaid a'u profiad? Mae angen ichi wneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd yr ydych yn cynorthwyo artistiaid. Mae'r sefyllfa bresennol yn gorfodi tlodi arnyn nhw"

"Pan fo arian mor brin mae'n rhaid bod cyfrifoldeb ar y rheiny sy'n cael cyfran sylweddol o'r cyllid i gynorthwyo, hyfforddi (a chyflogi) artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru"

"Buddsoddi mewn pobl yw'r ffordd orau o gynnal gyrfa"

Nid yw'n syndod bod y topig hwn wedi ennyn cryn dipyn o ymatebion ysgrifenedig manwl a thrafodaeth fanwl yn y cyfarfodydd ymgynghori. Cydnabu llawer bod y cymorthdaliadau mwyaf sylweddol i'r celfyddydau yng Nghymru'n dod oddi wrth artistiaid nad ydyn nhw'n cael cydnabyddiaeth ariannol deg am eu gwaith.

Mae ymatebwyr yn croesawu'r ffaith y gallwn ddarparu cymorth ar adegau allweddol yng ngyrfa artist. Fodd bynnag, mae adeiladu gyrfa gynaliadwy a hyfyw wrth weithio yng Nghymru yn dal i fod yn anodd i lawer.

Drwy ddatblygu galluoedd artistiaid, bydd yn haws inni gadw ac adnewyddu'r gronfa greadigol o dalent sy'n gweithio yng Nghymru. Mae arnom angen dulliau sy'n sicrhau datblygiad talent, cyfleoedd a chyllid ac sy'n creu rhwydweithiau cymheiriaid i artistiaid o ddechrau eu gyrfa i'w gyrfa aeddfed.

Daeth amrywiaeth fawr o syniadau i'r amlwg trwy'r ymgynghoriad. Gellir eu grwpio i'r themâu canlynol.

- Cefnogi ecoleg y celfyddydau – strwythurau i greu ac arddangos gwaith
- Buddsoddiad mwy hirdymor yn yr artist.
- Helpu i ddarparu'r gallu i ddefnyddio gofodau gweithio
- Cynorthwyo ag agweddau eraill ar ddatblygiad gyrfa
- Canllawiau cliriach ar ffioedd i artistiaid
- Mwy o gyfleoedd i rwydweithio

Nododd llawer o ymatebwyr eu rhwystredigaeth gyda chymhlethdodau ein system ymgeisio bresennol a galwasant am broses symlach. Nodwyd hyn ac fe gaiff sylw o dan Dopig 11.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Mae amrywiaeth a manylder yr ymatebion a ddaeth i law, ynghyd â'r trafodaethau yn y cyfarfodydd ymgynghori, wedi bod yn amryfal ac yn adeiladol. Mae rhai themâu clir a chyson iawn wedi dod i'r amlwg ac yn y rhan fwyaf o achosion rydym mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â'r rhain.

Diddorol yw nodi nad yw rhai o'r pwyntiau a godwyd yn ymwneud yn uniongyrchol ag arian y Loteri, ond yn fwy â sut y gellid gwella ecoleg a seilwaith y celfyddydau. Mae'n bwysig i hyn gael ei gydnabod yn ein strategaethau a ffyrdd o weithio ehangach.

### Byddwn yn…

- Creu gwasanaeth cymorth datblygu busnes i artistiaid
- Cytuno ar ganllawiau safonol i'r diwydiant ar ffioedd a'u gwneud yn un o amodau cyllid
- Ymchwilio gyda Phortffolio Celfyddydol Cymru i ffyrdd y gallai'r rheiny sydd â gofodau gweithio ac adnoddau sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach i artistiaid unigol a grwpiau bach
- Edrych gyda Phortffolio Celfyddydol Cymru a phartneriaid eraill ar sut y gallwn ddatblygu rhaglen strwythuredig o breswyliadau creadigol ledled Cymru
- Creu mwy o gyfleoedd rhwydweithio er mwyn i artistiaid gyfarfod a chyfnewid gwybodaeth a phrofiad.
- Ymchwilio i ba mor hyfyw fyddai cyflwyno rhyw fath o 'lwfans' Cyflog byw amser-diffiniedig i artistiaid unigol (gan edrych ar gynlluniau tebyg yn Iwerddon, Canada a'r Ffindir, er enghraifft). Gallai hyn greu amser a lle i artist ganolbwyntio'n llawnach ar ei ymarfer creadigol. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y gallai hwn fod yn gynnig dadleuol, gan y byddai'n darparu cymorth i artistiaid nad yw ar gael ar hyn o bryd i broffesiynau eraill

# Topig 6: Datblygu gyrfa/arweinyddiaeth

## Yr hyn a glywsom…

"Dwi'n cefnogi'ch awgrymiadau'n frwd a hoffwn eu gweld yn cael eu gweu i strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu'r gweithlu a arweinir gan y sector"

"Mae hyfforddiant yn rhoi egni, yn ysbrydoli, yn adfywiogi ac yn hanfodol er mwyn i Gymru fod yn fywiog ac yn gredadwy"

"Mae'n bwysig i ddatblygiad proffesiynol beidio â bod ynghlwm wrth gyflogeion neu sefydliadau oherwydd bod gyrfaoedd portffolio gan lawer o ymarferwyr creadigol"

Roedd consensws cryf iawn ynghylch y cynnig i ddarparu cymorth proffesiynol mwy strwythuredig i bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau. Byddai hyn yn cydategu datblygiad ymarfer celfyddydol unigolion a gallai gynnwys, er enghraifft, curaduron, cynhyrchwyr, marchnadwyr a chodwyr arian. Nodasom hefyd y dylai cyfleoedd i ddatblygu gyrfa fod yn agored i weithwyr ar eu liwt eu hunain sy'n gweithio'n annibynnol ar sefydliadau sefydledig. Dylai pobl allu cael hyfforddiant ar bob cam o'u gyrfa a dylai'r cyfleoedd hyn gwmpasu amrywiaeth o sgiliau sy'n ofynnol yn y sector.

Y themâu canlynol oedd y rhai a bwysleisiwyd yn y sylwadau ysgrifenedig ac yng nghyfarfodydd yr ymgynghoriad cyhoeddus:

- Cefnogaeth gref iawn i ddatblygiad gyrfa i bobl o gefndiroedd difreintiedig
- Cefnogaeth i raglenni arweinyddiaeth pwrpasol
- Mwy o gyfleoedd i rwydweithio
- Rôl hanfodol sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru o ran cynnig prentisiaethau, mentora, lleoliadau/cyfleoedd i gysgodi
- Dylai gweithwyr ar eu liwt eu hunain allu cael hyfforddiant

Yn y papur ymgynghori gofynasom a fyddai sefydliadau yn ei chael yn ddefnyddiol i gymorth fod ar gael a allai wneud iawn am gost rhyddhau staff i gael hyfforddiant. Er i hyn gael ei gefnogi, roedd llai o eglurder ynghylch pa ffurf a fyddai ar hyn yn ymarferol. Nid ymddangosai fod cefnogaeth glir i gyflenwi byrdymor. Roedd yna deimlad na fyddai hyn, o bosibl, yn cynnig y gwerth gorau am arian o gymharu â galwadau eraill sy'n cystadlu ag ef.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Rydym yn falch i nodi'r consensws cryf ynghylch y cynnig i wella ac ehangu'r cymorth ar gyfer datblygiad gyrfa. Byddwn yn rhoi rhagor o ystyriaeth fanwl i ffyrdd o fwrw ymlaen â hyn o dan faner strategaeth Datblygu'r Gweithlu. Mae'n debyg y bydd y cymorth yn cynnwys cymysgedd o raglenni strwythuredig ynghyd â rhaglenni hyfforddiant pwrpasol unigol.

### Byddwn yn…

- Gweithio gydag Ymddiriedolaethau a Sefydliadau unfryd i ehangu'r cynllun lleoliadau i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig
- Cynnig bwrsarïau i raglenni arweinyddiaeth achrededig
- Helpu i greu a chefnogi cyfleoedd i rwydweithio lle gellir rhannu dysgu
- Cynorthwyo gweithwyr proffesiynol ar eu liwt eu hunain i gael hyfforddiant
- Ymchwilio i'r potensial i gynyddu nifer y cynlluniau lleoliadau / cysgodi / interniaethau / prentisiaethau a ddarperir gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru.

# Topig 7: Annog mwy o wytnwch

## Yr hyn a glywsom…

**"Mae gwytnwch yn effeithio ar y celfyddydau i gyd, o artistiaid unigol a sefydliadau cymunedol bach i sefydliadau a lleoliadau cenedlaethol mawr"**

**"Osgoi 'taro a ffoi' ymgynghoriaeth"**

Mae pwysigrwydd buddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau'n cael cydnabyddiaeth a chefnogaeth helaeth. Fodd bynnag, mewn cyfnod o gyni gwyddom fod yn rhaid inni hybu mwy o wytnwch a chynaliadwyedd: lleihau maint y ddibyniaeth ar arian cyhoeddus a helpu sefydliadau i ennill yr incwm mwyaf posibl. Nodwyd bod hyn yr un mor bwysig i artistiaid unigol ag ydyw i sefydliadau.

Roedd cefnogaeth unfryd bron i'r cynnig i agor y Rhaglen Wytnwch bresennol i eraill y tu allan i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru. (Dim ond dau ymatebydd a anghytunodd.) Roedd cydnabyddiaeth glir bod pob sefydliad (bach, sy'n dod i'r amlwg, sy'n cael arian prosiect) yn wynebu'r un heriau â sefydliadau'r Portffolio – efallai hyd yn oed yn fwy.

Nododd ymatebwyr:

- fod angen i'r Rhaglen Wytnwch fod yn agored, yn bellgyrhaeddol ac yn eang ei hamrediad

- y dylai fod mwy o eglurder ynghylch rôl Cyngor y Celfyddydau yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hyn

- y dylai Cyngor y Celfyddydau chwarae mwy o ran yn y gwaith o ledaenu arferion da ac i sefydliadau wneud yr un peth

- y dylid cyfeirio at ddarparwyr eraill lle bo'n briodol

Thema gyffredin arall a ddaeth i'r amlwg oedd yr angen i rannu dysgu ac arferion da; nododd un ymatebydd yr angen am *'…amgylchedd rhaeadru lle mae sefydliadau'n cael arian ar gyfer cymorth busnes ac wedyn yn rhannu'r hyn a ddysgant gyda sefydliadau eraill.'*

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Rydym yn croesawu'r brwdfrydedd dros y cynnig hwn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi'r galwadau am fwy o eglurhad ynghylch beth fyddai Rhaglen Wytnwch "fersiwn 2.0" yn ei gynnig a manylion ynghylch sut y byddid yn manteisio arni. Mae'n debyg y byddwn yn llunio rhaglen a fydd wedi'i seilio ar yr hyn sydd wedi bod ar gael i Bortffolio Celfyddydol Cymru hyd yma. Bydd Cyngor y Celfyddydau a'i staff yn rheoli'r gwaith cyffredinol o gyflawni'r rhaglen, ond bydd gweithgareddau penodol yn cael eu cyflawni gan Gydweithwyr arbenigol profiadol sydd ag amrywiaeth fawr o sgiliau.

Bydd rhannu dysgu ac arferion da yn rhan annatod o'r cynllun a rhagwelwn sesiynau rheolaidd lle bydd sefydliadau a Chydweithwyr yn dod ynghyd.

### Byddwn yn…

- Datblygu cynllun Gwytnwch newydd i rai nad ydynt yn aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru
- Rhannu dysgu mewn ffordd fwy strwythuredig
- Rhoi terfyn ar y maes ariannu ymgeisio Datblygu Busnes a llunio llwybr arall i gael arian.

# Topig 8: Gweithio gyda Phortffolio Celfyddydol Cymru

## Yr hyn a glywsom…

"Dydyn ni ddim yn meddwl bod y meini prawf hyn wedi bod yn arbennig o glir hyd yma"

"Fel un o gleientiaid Portffolio Celfyddydol Cymru…rydyn ni'n dal i ddibynnu ar arian y Loteri i gyflawni rhai prif agweddau ar ein gwaith….felly mae syniad peidio ag ystyried sefydliadau'r Portffolio am arian y Loteri yn codi ofn arnom ni"

"Er mwyn gwneud y celfyddydau'n hygyrch i bawb a sicrhau amrywiaeth wirioneddol…mae'n iawn rhoi blaenoriaeth i sefydliadau llai ac unigolion, oherwydd i lawer ohonyn nhw byddai arian yn gwneud gwahaniaeth amhrisiadwy"

Gofynasom a ddylai sefydliadau refeniw Portffolio Celfyddydol Cymru hefyd fod yn gymwys i ymgeisio am arian y Loteri. Er bod y cwestiwn yn ymddangos yn syml, mae hwn yn bwnc cymhleth ac weithiau llawn tyndra. Caiff hyn ei adlewyrchu yn amrywiaeth yr ymatebion a ddaeth i law. Nodasom (yn y cyfarfodydd ymgynghori yn arbennig) fod y mwyafrif yn cydnabod bod sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn y bôn yn sail i ecoleg y celfyddydau yng Nghymru. O'r herwydd dylen nhw gael arian digonol.

Roedd barn gref, pe bai arian y Loteri ar gael i sefydliadau'r Portffolio, fod angen trothwy "ychwanegedd" uchel iawn. Yn benodol, awgrymwyd efallai y byddai dyletswydd ar sefydliadau'r Portffolio i gynorthwyo sefydliadau llai, ynghyd ag artistiaid sy'n dod i'r amlwg a rhai sefydledig. Cafwyd y farn hon o'r tu mewn a'r tu allan i'r Portffolio.

Daeth set newydd o feini prawf allan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn diffinio pryd y byddai arian ychwanegol o'r Loteri yn briodol.

- **Ychwanegedd ac arloesedd**. Dylai fod rhagdybiaeth gref na ddylai sefydliadau'r Portffolio allu cael arian ond ar gyfer mentrau sy'n arloesol, yn wahanol ac yn amlwg yn ychwanegol i'r hyn sy'n cael ei gynnig eisoes.

- **Ariannu'r prosiectau 'gorau'**. Nododd rhai ymatebwyr mai'r materion i'w hystyried yw nid a all sefydliadau'r Portffolio gael arian y Loteri, ond yn hytrach y dylai Cyngor y Celfyddydau sicrhau ei fod yn cynorthwyo prosiectau sy'n bodloni orau y meini prawf a strategaethau mae wedi'u cyhoeddi (o ble bynnag mae'r prosiectau'n dod).

- **Tryloywder y broses benderfynu.** Roedd barn amlwg y dylai sefydliadau'r Portffolio allu ymgeisio am arian y Loteri ar yr amod bod y broses yn glir ac yn deg. Nododd un ymatebydd, *'Nid ydym yn meddwl bod y meini prawf hyn wedi bod yn arbennig o dryloyw hyd yma'*

Efallai mai'r mater mwyaf arwyddocaol yw'r gydnabyddiaeth nad yw holl sefydliadau'r Portffolio yr un peth a bod lefelau cyllid o fewn y Portffolio'n amrywio'n fawr. Ni fyddai llawer o sefydliadau'n gallu darparu rhaglen gweithgarwch lawn heb allu cael arian ychwanegol. Mewn gwirionedd, nid galw y dylid disgwyl i arian y Loteri ei ateb yw hwn.

Fel arfer mae lefelau cymorth grant yn cael eu hadolygu pob pum mlynedd fel rhan o'r Adolygiad Buddsoddi (mae'r nesaf i gael ei gynnal yn 2020). Os oes ad-drefnu costau craidd Portffolio Celfyddydol Cymru i ddigwydd, dim ond fel rhan o'r broses honno y gellir ei ystyried.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Mae yma faterion cymhleth ac amlochrog y bydd arnynt angen amrywiaeth o ymatebion wedi'u teilwra – ac nid materion yn ymwneud ag arian y Loteri fydd pob un o'r rhain. Yn amlwg yn eu mysg mae'r ffordd y gall Adolygiad Buddsoddiad 2020 ddatrys cwestiwn 'arian priodol' i'r Portffolio. Rydym yn cydnabod y farn bod gormod o sefydliadau'n dibynnu ar arian ychwanegol er mwyn cyflwyno rhaglen lawn o waith o ansawdd da, ond nid arian y Loteri yw'r ateb cywir o angenrheidrwydd.

Yn aml sefydliadau'r Portffolio sydd yn y sefyllfa orau i feithrin a chynorthwyo artistiaid a sefydliadau llai yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, rydym yn derbyn eu bod yn aml o dan ormod o bwysau i allu darparu'r gwasanaeth yr hoffent ei ddarparu. Mae'n bosibl y byddai gallu cael arian ychwanegol o'r Loteri yn y meysydd hyn yn helpu sefydliadau'r Portffolio i ehangu a gwella'r cymorth maen nhw'n ei ddarparu.

Rydym yn pryderu yr ymddengys bod yna gred fod trefn wahanol ar gyfer asesu ceisiadau am arian y Loteri oddi wrth sefydliadau'r Portffolio. Ymddengys bod argraff nad yw'r ceisiadau hyn am arian yn destun craffu yr un mor gadarn ag sydd i sefydliadau nad ydynt yn aelodau o'r Portffolio. Nid ydym yn gweld hyn – mae'r meini prawf asesu yn cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob achos. Fodd bynnag, os yw'r gred hon yn bodoli, mae angen inni ei hunioni.

### Byddwn yn…

- Sicrhau ein bod yn cyfleu ein proses benderfynu mewn ffordd fwy effeithiol. Bydd ein Canllawiau rhaglen newydd yn cynnwys arweiniad cam wrth gam i'r broses asesu, a bydd yr holl feini prawf yn cael eu hesbonio'n glir. Rydym hefyd yn edrych ar y ffordd y byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid allanol yn ein proses benderfynu (gweler Topig 2). Mae dangos bod pob cais yn destun proses deg ac agored yn sylfaenol i lywodraethu da ac atebolrwydd.

- Ystyried arian i sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru dim ond a) os mai nhw yw'r unig rai a all gyflawni prosiect penodol a b) os ydyn nhw'n pasio prawf trothwy uwch o ran dangos ansawdd, arloesedd a budd i'r cyhoedd

- Ymchwilio i'r ffordd orau o gynorthwyo sefydliadau'r Portffolio i gynnig amrywiaeth o wasanaethau i artistiaid a sefydliadau yn eu hardaloedd.

- Sicrhau yr ystyriwn yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth lunio cylch gorchwyl yr Adolygiad Buddsoddi a gynhelir cyn bo hir

# Topig 9: Mynd â Chymru i'r byd

## Yr hyn a glywsom...

"Mae'r holl brosiectau rhyngwladol mor bwysig mewn cynifer o ffyrdd. Mae'n dangos i'r byd bod Cymru'n fan lle mae prosiectau celfyddydol cyffrous yn digwydd ac y gall addysgu diwylliannau eraill yn ogystal â dysgu oddi wrthyn nhw. Sut arall mae cymdeithas yn tyfu heblaw trwy gael profiadau newydd a dysgu sgiliau newydd? Rhan bwysig iawn o gymorth Cyngor y Celfyddydau"

Ychydig cyn yr ymgynghoriad hwn, cyhoeddasom Strategaeth Ryngwladol newydd. Mae hon wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a thrafodaeth helaeth. Rydym hefyd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gydgysylltu ymgynghoriad ynghylch ei strategaeth ryngwladol hithau.

Mae'r ymatebion ysgrifenedig yn cefnogi arian ar gyfer gwaith rhyngwladol, gan ei ddisgrifio fel gwaith sydd *yn hanfodol, yn rhan bwysig o'r ecoleg* ac *yn bwysicach nag y bu erioed.* Felly mae gweithio'n rhyngwladol yn allweddol i ddatblygu gwlad ddynamig a chyffrous, agored a chroesawgar y mae creadigrwydd yn ganolog iddi.

Cynigiodd y papur ymgynghori dair blaenoriaeth; parhau i roi cymorth i artistiaid a sefydliadau trwy'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol; buddsoddi mewn artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru er mwyn datblygu marchnadoedd rhyngwladol newydd, cymryd rhan mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol a chefnogi datblygiad sgiliau. Roedd cefnogaeth hefyd i gynadleddau a chyfleoedd i adeiladu rhwydweithiau rhyngwladol. Cafodd y tair gefnogaeth frwd, ond nid fel diben ynddyn nhw eu hunain. Y ffordd orau o wireddu gwir werth y mentrau hyn yw trwy raglen datblygiad flaengar, wedi'i chynllunio'n ofalus, gydag artistiaid unigol a sefydliadau.

*'Mae rhaglenwyr yn ymateb i gyfarfod ag artistiaid a gweld eu gwaith yng nghyd-destun eu hiaith ddiwylliannol eu hunain.'*

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ymwybodol o ymchwil sy'n cael ei gwneud gan y British Council ac yn cynnig y dylid cynnal Arddangosiad Rhyngwladol yng Nghymru, er nad oedd consensws ynghylch pa ffurf allai fod ar hwn.

Roedd dymuniad am fwy o gydweithredu gydag asiantaethau eraill er mwyn rhannu syniadau, cysylltiadau ac adnoddau.

Cododd y topig hwn drafodaeth am y berthynas rhwng Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cafwyd galwadau am i fwy gael ei wneud i hybu cydweithio a theithio ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Mae ein celfyddydau, ein diwylliant a'n hieithoedd yn rhoi i Gymru ei phersonoliaeth fyd-eang unigryw. Ac mae'r cyd-destun diwylliannol unigryw hwn yn atseinio gyda llawer o ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol eraill. Bydd hyn yn un o nodweddion cryf ein gwaith ynghylch Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO.

Rydym ni eisiau creu cyd-destun diwylliannol newydd sy'n meithrin dealltwriaeth a goddefgarwch rhyngwladol trwy ymgysylltu â'r cymunedau rhyngwladol amrywiol yng Nghymru. Nid yw'n ddigon inni ystyried gweithio rhyngwladol yn gyfle i 'ecsbloetio', rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd o roi yn ôl a chyfoethogi cysylltiadau diwylliannol. Daw hyn yn bwysicach byth ar ôl Brexit lle mae'n rhaid inni ail-ddiffinio ein perthynas ag Ewrop.

### Byddwn yn…

- Parhau i ddarparu'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol
- Gweithio gyda phrosesau busnes newydd Gwytnwch i sicrhau bod artistiaid a sefydliadau celfyddydol sydd â'r potensial i ddatblygu cyfleoedd rhyngwladol newydd yn barod ar gyfer y farchnad
- Darparu cymorth ar gyfer rhaglen ddynodedig o ddigwyddiadau arddangos rhyngwladol fel rhan o raglen ehangach o ddatblygiad proffesiynol
- Buddsoddi mewn prosiectau sy'n codi pontydd diwylliannol gyda chymunedau rhyngwladol sy'n byw a gweithio yng Nghymru. Dylai agwedd ryngwladol hefyd ein helpu i ddeall ac ymgysylltu'n well â'r cymunedau amrywiol sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru.

# Topig 10: Cyllid ar gyfer prosiectau Cyfalaf

## Yr hyn a glywsom...

"Os oes gan Gyngor Celfyddydau Cymru ddiddordeb mewn datblygu sîn celfyddydau iach, addas i'r diben, ledled Cymru, yna mae'n briodol bod yna arian ar gyfer prosiectau cyfalaf"

"Hanfodol, hollbwysig ac angenrheidiol"

Ar y cyfan roedd yr ymatebion ar y topig hwn yn syml iawn. Roedd yna gefnogaeth gref i raglen Cyfalaf oedd yn canolbwyntio ar brosiectau a fyddai'n cynorthwyo sefydliadau i ddod yn fwy gwydn yn weithredol ac yn ariannol. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau sy'n gwella mynediad ffisegol a'r rheiny sy'n cynyddu cynaliadwyedd amgylcheddol ac effeithlonrwydd.

Roedd ymatebwyr yn annog gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys timau adfywio Awdurdodau Lleol a dosbarthwyr eraill arian y Loteri. Roedd galwadau hefyd am fuddsoddi mewn mathau eraill o brosiectau gan gynnwys gofodau ymarfer/gweithio, cerbydau, cyfarpar llwyfan a chymorth ar gyfer mentrau digidol. Nodwn fod yr angen am ofodau ymarfer a gweithio wedi cael ei godi mewn mannau eraill yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae hon yn thema gyson mewn perthynas ag artistiaid unigol a sefydliadau nad ydynt yn gweithio o leoliadau.

Yn y cyfarfodydd ymgynghori yn arbennig roedd galwad gyson i ganfod ffyrdd y gallai cwmnïau teithiol llai gael gafael ar gyfarpar a cherbydau trwy ryw fath o gynllun 'benthyca' i Gymru gyfan. Roedd llawer yn teimlo y byddai hyn yn helpu i leihau costau a hefyd yn lleddfu'r baich gweinyddol.

Pan roddodd ymatebwyr sylw i faint y buddsoddiad, roedd yna ymdeimlad y dylai arian Cyfalaf fod ar raddfa lai i sefydliadau llai ac y dylai gael ei ddosbarthu'n ehangach.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Er bod ein Rhaglen Cyfalaf ar gau i unrhyw brosiectau newydd mawr, cydnabyddwn fod angen inni ystyried cynnal rhaglen ffocysedig iawn a all gynnig cymorth i rai o'r meysydd a nodir uchod. Gan fod arian y Loteri wedi gostwng mewn termau real, bydd y gyllideb yn gymharol fach ac mae'n amlwg y bydd angen i unrhyw brosiectau sy'n cael cymorth fod wedi'u halinio â'r tri maes blaenoriaethol.

Mae gennym ddiddordeb yn y syniadau ar gyfer cynllun benthyca cyfarpar / cerbydau ac yn cydnabod y gallai hwn fod o fudd i lawer o gwmnïau teithiol. Byddwn yn ymchwilio i ddichonoldeb cynllun o'r fath yn fanylach.

### Byddwn yn…

- Sefydlu rhaglen buddsoddi Cyfalaf gymharol fach a fydd yn canolbwyntio'n glir ar **gynaliadwyedd amgylcheddol ac effeithlonrwydd, gwella mynediad ffisegol ym mhob maes, gwella gwytnwch ariannol a gweithredol.**

- Gweithio gyda phartneriaid eraill i edrych ar sut y gallwn helpu i gynyddu mynediad i ofodau gweithio i artistiaid a sefydliadau llai

- Cyflawni astudiaeth ddichonoldeb er mwyn ymchwilio i gynllun benthyca cyfarpar

# Topig 11 – Gwneud pethau'n haws i chi

## Yr hyn a glywsom...

"Mae'r heriau i unrhyw gorff ariannu'n enfawr: cydbwyso'r angen am degwch, symlrwydd a thryloywder, â'r pwysau ar amser asesu a'r adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, mae cymhorthdal yn chwarae rhan enfawr wrth siapio'r sector, ac mae'r ffordd y caiff ei rannu'n ddatganiad croyw ynghylch pwy a beth a werthfawrogir"

"Mae'r meysydd yn cael eu disgrifio fel – dryslyd, cyfyngus, anhyblyg"

"Mae'r diffyg cyfathrebu creadigol rhwng swyddogion CCC a'i gleientiaid, a'r pwyslais a roddir ar broses, yn rhwystr mawr"

Roedd y topig hwn yn canolbwyntio ar y broses o ymgeisio am arian y Loteri. Cafodd y cynnig i roi terfyn ar y nifer fawr o feysydd gefnogaeth frwdfrydig. A mynegodd nifer o'r ymatebwyr rwystredigaeth ynghylch gorfod gwneud i brosiect 'weddu' i'r gofynion presennol. Cydnabuwyd y bydd angen i'r meysydd gael eu disodli gan feini prawf eraill sy'n canolbwyntio ar fuddsoddi yn y blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor y Celfyddydau.

Cafodd y cynnig ynghylch rhaglen lefel mynediad newydd 'dra chyflym' ar gyfer symiau llai o arian (hyd at £2,000) ei gefnogi'n gryf. Cafwyd llawer o sylwadau ar y lefel 'bandio' ariannol bresennol ar gyfer grantiau bach yn gyffredinol. Bernir bod y cap presennol o £5,000 yn gyfyngus ac yn aml yn golygu y telir ffioedd bach iawn i artistiaid ac ymarferwyr. Cafodd y cynnig i wella cymorth i bobl anabl yn y broses ymgeisio gefnogaeth helaeth hefyd.

Un thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg yng nghyfarfodydd yr ymgynghoriad cyhoeddus a thrwy'r ymatebion ysgrifenedig yw'r angen am fwy o gymorth gan Gyngor y Celfyddydau drwy gydol y broses ymgeisio. Mae'n amlwg bod yna ddymuniad i Swyddogion fod yn fwy gweladwy ac iddynt gynnig cyngor a chymorth clir, ymarferol a chyson trwy ddeialog wyneb yn wyneb.

Cyflwynwyd nifer fawr o awgrymiadau ymarferol i wella'r broses ymgeisio.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Mae nifer yr ymatebion ar y topig hwn – yn rhai ysgrifenedig ac yn y cyfarfodydd ymgynghori – a'r amrywiaeth fawr o syniadau, yn ein darbwyllo bod angen adolygiad trylwyr o'r agwedd hon ar ein gwaith. Er bod yna rai rwymedigaethau mae'n rhaid inni eu cyflawni fel un o Ddosbarthwyr y Loteri, rydym yn cytuno y gellir gwneud llawer i symleiddio'r broses bresennol. Fodd bynnag, gellir cytuno ar unwaith ar rai egwyddorion allweddol, megis codi'r terfyn ariannol, cyflwyno cynllun lefel mynediad a gwella'r cymorth i ymgeiswyr anabl.

Nodwn hefyd y farn glir iawn y gallem wneud mwy i'ch cynorthwyo drwy gydol y broses ymgeisio. Mae'r pwynt ynghylch cynyddu gweladwyedd ac argaeledd ein Swyddogion yn un da ac yn codi'n rheolaidd mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad. Yn ystod y misoedd i ddod byddwn yn bwrw ymlaen â'r canlynol:

### Byddwn yn…

- Cyflawni adolygiad trylwyr o'r broses bresennol gyda'r nod o'i symleiddio
- Yn lle'r 'meysydd' presennol, cyflwyno fformat mwy agored a gaiff ei lywio gan 3 egwyddor allweddol ein cynllun Corfforaethol
- Llunio rhaglen lefel mynediad newydd i rai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf
- Newid 'cap' bandio grantiau bach o £5,000 i £10,000, ac ymchwilio i oblygiadau ariannol codi'r cap uchaf ar geisiadau mwy uwchben £30,000
- Cyflwyno cymorth proffesiynol strwythuredig i ymgeiswyr anabl
- Sicrhau bod ein Swyddogion ar gael i ddarparu cyngor a chymorth drwy gydol y broses ymgeisio.

# Topig 12 – Eich tro chi

## Yr hyn a glywsom...

Denodd y topig agored hwn amrywiaeth fawr o ymatebion. Yn benodol, canolbwyntiwyd ar y disgwyliadau strategol ac ymarferol sydd gennych o Gyngor y Celfyddydau, y gwasanaethau a ddarparwn yn awr ac y gallem eu darparu yn y dyfodol, a pha gymorth mae arnoch ei angen gan ein Swyddogion.

Daeth pedair prif thema i'r amlwg:

- Dadleuaeth. Roedd llawer ohonoch yn teimlo'n gryf y dylem wneud mwy i ddangos pwysigrwydd y celfyddydau a'r gwerth ychwanegol maen nhw'n ei greu i'r gymdeithas. Dylai Cyngor y Celfyddydau fod yn well am hyrwyddo'r gwaith mae'n ei ariannu a gwneud mwy i rannu storïau llwyddiant.

- Partneriaethau. Dylai Cyngor y Celfyddydau feithrin a chwilio am bartneriaethau strategol sy'n dod â buddion diriaethol i'r sector. Dylem hefyd froceru perthnasoedd rhwng sefydliadau i helpu i gyflawni ein hamcanion strategol. Gwelwyd y neges hon yn yr holl dopigau a gyflwynwyd yn y papur Ymgynghori.

- Rhannu gwybodaeth. Mae llawer o alwadau am inni fod yn well am rannu gwybodaeth a allai fod o fudd i'r sector. Dylai Cyngor y Celfyddydau gyfeirio'n fwy effeithiol ar draws amrywiaeth fawr o bynciau a'i gwneud yn bosibl rhannu dysgu ac arferion gorau. Dylem hefyd ddarparu cymorth mwy hygyrch a haws ei ddeall trwy weminarau a sesiynau holi ac ateb a thrwy gyhoeddi'r data a gasglwn.

- Swyddogion Cyngor y Celfyddydau. Mae galw gwirioneddol am newid yn yr hyn a welir fel arferion gweithio presennol ein Swyddogion. Teimlir bod angen iddyn nhw fod yn fwy gweladwy mewn ardaloedd ar draws Cymru ac wrth wneud hynny herio'r farn gyffredin bod Cyngor y Celfyddydau'n canolbwyntio ar Gaerdydd. Mae angen inni weithredu mwy 'ar lawr gwlad' gan fynd i weld mwy o waith, meithrin perthnasoedd ar draws y sector i gyd, cynnig cyngor a chymorth ymarferol parhaus sy'n mynd y tu hwnt i'r broses ymgeisio.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud…

Unwaith eto roedd amrywiaeth a ffocws yr ymatebion yn graff ac yn addysgiadol, gan bwysleisio meysydd penodol lle gallai Cyngor y Celfyddydau wella ei wasanaethau i chi. Cydnabyddwn y rhan fwyaf o'r pwyntiau a wnewch ac mewn rhai achosion rydym eisoes yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud yn well.

### Byddwn yn…

- **Dadleuaeth.** Rydym yn cytuno'n llwyr â'r pwyntiau a wneir yma. Gwyddom fod gennym ni storïau gwych i'w hadrodd ac mae angen inni eu hadrodd yn well. Mae gennym Strategaeth Cyfathrebu newydd, sy'n adlewyrchu'r uchelgais hwn, ac rydym yn gobeithio y bydd ein gwefan newydd yn adnodd llawer mwy effeithiol nag o'r blaen. Gobeithio y byddwch yn sylwi ar newid amlwg yn ein gweladwyedd cyhoeddus ni (a'ch gweladwyedd chithau) dros yr ychydig fisoedd nesaf. Mae arnom ni angen eich help chi hefyd i ddod o hyd i ddeunydd a'i rannu.

- **Partneriaethau.** Unwaith eto rydym yn cytuno'n llwyr â'r pwyntiau a wnaed. Yn wir, mae partneriaethau'n un o gonglfeini ein Cynllun Corfforaethol a byddan nhw'n ganolog i'r ffordd y byddwn ni'n gweithio dros y pum mlynedd nesaf. Bydd partneriaeth yn egwyddor sylfaenol i lawer o agweddau ar ein gwaith a bydd yn rhan anhepgor o'n rhaglenni Loteri newydd hefyd.

- **Rhannu gwybodaeth.** O'r ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law, a'r trafodaethau yn y cyfarfodydd cyhoeddus yn arbennig, rydym yn sylweddoli bod hwn yn faes lle mae angen gwirioneddol inni wneud yn well. Roedd yn anghyfforddus clywed mai ychydig a ŵyr pobl am y gwasanaethau sydd ar gael ar draws Cyngor y Celfyddydau, a nodi mai ymwybyddiaeth gymharol fach sydd o lawer o'n cynlluniau. Rydym hefyd yn cytuno y dylai fod mwy o gyfleoedd i rannu arferion da ar draws y sector. Bydd hyn yn rhan allweddol o'n Strategaeth Cyfathrebu barhaus.

- **Swyddogion Cyngor y Celfyddydau.** Tîm bach ydym ni ac rydym wedi gorfod lleihau nifer y staff yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, ni allwn anwybyddu'r ffaith mai un thema a gododd yn rheolaidd drwy gydol yr ymgynghoriad oedd dymuniad inni weithio mewn ffordd wahanol. Rhaid inni wrando'n ofalus ar yr hyn a ddywedwch. Roedd yn anghyfforddus darllen a gwrando ar rai o'r sylwadau a gyflwynwyd, ond cawn ein calonogi gan y ffaith bod gwaith ein Swyddogion, lle bo'n gweithio'n dda, yn cael ei ystyried yn hanfodol ac o ansawdd da. Dros yr ychydig fisoedd nesaf byddwn yn edrych yn fanwl ar ffyrdd y gallwn wella ein gweladwyedd a gwneud ein staff yn fwy hygyrch. Rhoddwn wybod ichi'n rheolaidd am amrywiaeth o fentrau newydd sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.